# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 18FED TACHWEDD, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 11 Tachwedd 2025)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Gwynfor Owen (Cadeirydd)

Arwyn Herald Roberts

Elfed Williams

Meryl Roberts (Eilydd)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS TRWYDDED EIDDO 5 - 6

TŶ COFFI REUBENS, 31 STRYD FAWR, CAERNARFON LL55 1RH

I ystyried y cais

## 5. CAIS TRWYDDED EIDDO 7 - 9

CLYNNOG PETROL STATION A SIOP, ANNWYLFA GARAGE, CLYNNOG FAWR, CAERNARFON, GWYNEDD LL54 5PF

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
9. Swyddog Cyfreithiol y Cyngor i grynhoi gofynion y cais

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **13/08/2025** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – REUBENS COFFEE HOUSE, 31 STRYD FAWR, CAERNARFON, GWYNEDD LL55 1RH** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1 CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Derbyniwyd cais am drwydded eiddo gan Reubens Coffee House a leolir ar 31 Stryd Fawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1RH. Cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu ac fe wneir cais i weithredu'r eiddo o dan y Drwydded Eiddo a gyflwynwyd dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

1.2 Disgrifir yr eiddo fel siop goffi a'r bwriad yw gweithredu fel siop goffi yn bennaf, gyda'r ddarpariaeth ychwanegol i werthu alcohol. Mae'r ymgeisydd yn bwriadu i alcohol fod ar gael i'w yfed ar ac oddi ar yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Gweler y tabl isod am fanylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedu:

**Oriau Agor:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul: | 08:00 | - | 00:30 |
| Dydd Llun: | 08:00 | - | 00:30 |
| Dydd Mawrth: | 08:00 | - | 00:30 |
| Dydd Mercher: | 08:00 | - | 00:30 |
| Dydd Iau: | 08:00 | - | 00:30 |
| Dydd Gwener: | 08:00 | - | 00:30 |
| Dydd Sadwrn: | 08:00 | - | 00:30 |

**Gweithgareddau Trwyddedig:**

**Gwerthu Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul: | 08:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun: | 08:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth: | 08:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher: | 08:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau: | 08:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener: | 08:00 | - | 00:00 |
| Dydd Sadwrn: | 08:00 | - | 00:00 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Bydd yr eiddo yn gweithredu i safon uchel a bydd yn gwneud hyn pe bai'r drwydded yn cael ei chymeradwyo o ran gwerthiant alcohol. Bydd yr holl staff wedi cael eu hyfforddi'n llawn i werthu alcohol.

- Bydd yr eiddo yn gosod ac yn cadw system TCC gynhwysfawr. Bydd y TCC yn gwylio’r holl fynedfeydd ac allanfeydd gan alluogi adnabod wyneb pob person sy’n dod i mewn i’r eiddo mewn unrhyw amodau goleuo.

- Bydd llyfr damweiniau yn ei le ar y safle i gofnodi unrhyw ddamweiniau neu anafiadau sy'n digwydd yn yr eiddo.

- Atgoffir y cwsmeriaid o'u cyfrifoldebau i adael yr eiddo yn dawel.

- Bydd yr eiddo yn gweithredu polisi Her 25. Bydd polisi o'r fath yn ysgrifenedig ac fe'i cedwir yn yr eiddo.

**Gweler Rhan M o'r cais am y rhestr lawn o fesurau a gynigir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.**

## 3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU A GYFLWYNWYD |
|---|---|
| Iechyd yr Amgylchedd | Gwrthwynebiad |
| Cynllunio | Sylwadau |

### 3.1 Gwrthwynebiad gan Iechyd yr Amgylchedd

**3.2** Mae Iechyd yr Amgylchedd wedi gwrthwynebu'r cais oherwydd pryderon ynglŷn â niwsans cyhoeddus. Er y rhoddwyd caniatâd cynllunio yn wreiddiol i'r safle fel tŷ coffi, nid bar, mae'r cais presennol yn ceisio ymestyn yr oriau agor tan hanner nos i werthu alcohol. Mae hyn yn codi pryderon sylweddol, gan y gall yr eiddo wedyn gynnal cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio a'i chwyddo, gyda’r potensial o achosi aflonyddwch sŵn i eiddo preswyl cyfagos. Amlygodd y Gwasanaeth nad oedd unrhyw asesiad sŵn wedi ei ddarparu i ddangos gallu'r adeilad i gadw'r sŵn i'r eiddo, yn enwedig o gofio am y ffenestri ac agosatrwydd at dderbynyddion sensitif. Heb fesurau lliniaru sŵn addas, nid yw Iechyd yr Amgylchedd yn gallu cefnogi'r cais, a phwysleisir na fydd yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus efallai yn cael ei fodloni dan yr oriau arfaethedig.

**Mae copi cyflawn o wrthwynebiad Iechyd yr Amgylchedd wedi'i atodi.**

### 3.3 Sylwadau gan yr Adran Gynllunio

Ymatebodd yr Adran Gynllunio gan gadarnhau bod y cais a gyflwynwyd fel y mae ar hyn o bryd yn mynd yn groes i'r caniatâd cynllunio presennol. Maent hefyd yn nodi bod y caniatâd presennol ond yn caniatáu gweithgaredd tan 18:00, ac nid oes unrhyw gais wedi ei gyflwyno i amrywio'r oriau hyn. Er hynny, maent wedi cadarnhau bod cais ar wahân wedi ei gyflwyno a'i fod ar hyn o bryd yn cael ei ystyried i newid o drwydded A1 i drwydded A3. Nid oes penderfyniad wedi ei wneud ar y cais hwnnw eto.

**Mae copi cyflawn o'r cais cynllunio wedi'i atodi.**

## 4.0 ARGYMHELLIAD

**Argymhellir bod y cais yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar y telerau canlynol:**
• Rhaid i’r ymgeisydd sicrhau cydymffurfiaeth lawn â’r caniatâd cynllunio, ac ni ddylai’r drwydded ddod i rym nes bod materion cynllunio wedi’u datrys, a
• Rhaid i’r oriau gweithredu a’r gweithgareddau trwyddedig fod yn unol â’r oriau a ganiateir o dan y caniatâd cynllunio.
• Dylid darparu asesiad effaith sŵn i fynd i’r afael â phryderon Iechyd yr Amgylchedd ac i sicrhau atal niwsans cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **18-11-2025** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO –GORSAF PETROL A SIOP CLYNNOG, GAREJ ANNWYLFA, CLYNNOG FAWR, CAERNARFON, GWYNEDD LL54 5PF** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1 CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Derbyniwyd cais am drwydded eiddo gan Sterling Petroleum Cyf a leolir yn Clynnog Fawr, Caernarfon, Gwynedd LL54 5PF. Cyflwynwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu ac fe wneir cais i weithredu'r eiddo o dan y Drwydded Eiddo a gyflwynwyd dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

1.2 Disgrifir yr eiddo fel siop goffi a'r bwriad yw gweithredu fel siop cyfleus gyda gorsaf betrol, gyda’r ddarpariaeth i werthu alcohol oddi ar yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi’i gyflwyno’n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a’r rheoliadau perthnasol, a’i fod felly yn ddilys.

Gweler y tabl isod am fanylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedu:

**Gweithgareddau Trwyddedig:**

| **Trwydded Blaenorol** | | **Cais trwydded newydd** | |
|---|---|---|---|
| **Oriau Agor** | | **Oriau Agor** | |
| Dydd Sul/Sunday | 10:00 - 22:30 | Dydd Sul/Sunday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Llun/Monday | 08:00 - 23:00 | Dydd Llun/Monday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 - 23:00 | Dydd Mawrth/Tuesday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 - 23:00 | Dydd Mercher/Wednesday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 23:00 | Dydd Iau/Thursday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Gwener/Friday | 08:00 - 23:00 | Dydd Gwener/Friday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 - 23:00 | Dydd Sadwrn/Saturday | 00:00 - 23:59 |
| **Gerthiant Alcohol** | | **Gwethiant Alcohol** | |
| Dydd Sul/Sunday | 10:00 - 22:30 | Dydd Sul/Sunday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Llun/Monday | 08:00 - 23:00 | Dydd Llun/Monday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 - 23:00 | Dydd Mawrth/Tuesday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 - 23:00 | Dydd Mercher/Wednesday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 23:00 | Dydd Iau/Thursday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Gwener/Friday | 08:00 - 23:00 | Dydd Gwener/Friday | 00:00 - 23:59 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 - 23:00 | Dydd Sadwrn/Saturday | 00:00 - 23:59 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Bydd y safle yn cael ei reoli a'i reoli gan berson cyfrifol bob amser. Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig ar y safle neu gellir cysylltu ag ef yn ystod yr oriau gweithredu

- Bydd unrhyw ddigwyddiadau o natur droseddol yn cael eu hadrodd i'r Heddlu. Bydd teledu cylch cyfyng mewnol ac allanol cynhwysfawr yn cael ei osod, a bydd y recordiadau'n cael eu cadw am o leiaf 30 diwrnod. Hefyd, bydd y recordiadau hyn ar gael i unrhyw awdurdodau cyfrifol.

- Mae offer diogelwch tân wedi'u gosod a byddant yn cael eu cynnal ar y safle. Bydd yr allanfa argyfwng yn cael ei chadw'n rhydd o rwystrau bob amser. Bydd staff wedi'u hyfforddi'n llawn mewn gweithdrefnau gwerthu alcohol a diogelwch
- Bydd biniau digonol ar gael i gwsmeriaid gael gwared ar eu sbwriel.

- Bydd yr eiddo yn gweithredu polisi Her 25. Bydd cofrestr o wrthod gwerthu yn cael ei chadw a'i chynnal ar y eiddo.
- Bydd gwirodydd wedi'u lleoli y tu ôl i'r ardal cownter. Bydd Till prompt yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob cynnyrch cyfyngedig oedran.

- Bydd alcohol yn cael ei storio i ffwrdd o'r fynedfa a bydd yr ardal o dan oruchwyliaeth

**Gweler Rhan M o'r cais am y rhestr lawn o fesurau a gynigir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.**

## 3. YMGYNGHORIAD

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU A GYFLWYNWYD |
|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | Sylwadau |

**3.1** **Gwrthwynebiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru**

**3.2** Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi fod argaeledd alcohol; trwy oriau agor estynedig yn dylanwadu'n sylweddol ar lefelau yfed, patrymau yfed, a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

**3.3** Cyfeirir at strategaethau Rhanbarthol a chenedlaethol mewn perthynas a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac argaeledd. Yn benodol cyfeirir at y ffaith fod mwy o bobl yng Ngwynedd na'r cyfartaledd cenedlaethol yn yfed mwy na'r argymhelliad o ran niferoedd o unedau alcohol mewn wythnos, Nodir hefyd ac fod derbyniadau Ysbyty yng Ngwynedd oherwydd cyflyrau sydd yn gysylltiedig a yfed alcohol niweidiol yn ffactor wedi cynyddu.

**3.4** Ymhellach i hyn, nodir fod ward Llanllyfni a Clynnog yn cael ei ystyried yn ardal difreintiedig; a dengys fod pobl mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o brofi derbyniadau Ysbyty am resymau cysylltiedig ag alcohol neu farw o gyflyrau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

**3.5** Cyfeirir at y ffaith fod rheoli argaeledd alcohol yn allweddol i atal problemau sydd yn gysylltiedig ac alcohol yn y gymuned ac i leihau niwed sy'n gysylltiedig ac alcohol. Nodir hefyd fod yfed a gyrru yn parhau i fod yn broblem , ac yn debygol o fod fwy o broblem yng nghefn gwlad na'r hyn sydd yn cael ei adlewyrchu yn y ffigyrau swyddogol,

oherwydd sawl ffactor gan gynnwys diffyg mynediad i wasanaethau ( er enghraifft trafnidiaeth gyhoeddus) Mae copi cyflawn o sylwadau Iechyd Cyhoeddus wedi ei atodi

**3.6** Mewn perthynas a'r amcan Trwyddedu o ddiogelu plant rhag niwed; noder fod cynyddu argaeledd alcohol yn cynyddu problemau cysylltiol mewn perthynas a niwed alcohol. Fe all achosi niwed i blant mewn teuluoedd lle mae rhieni neu oedolion neu ofalwyr yn camddefnyddio alcohol.

**3.7** O ran yr amcan Trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus – nodir fod Clynnog Fawr yn bentref bychan gwledig , ac fod y garej a siop wedi ei lleoli mewn ardal breswyl. Nodir y y byddai trwydded 24 awr , 7 diwrnod y r wythnos yn cael effaith negyddol ar yr ardal , gyda mwy o geir yn debygol o yrru i'r lleoliad yn hwyr yn y nos gan nad oes siop na garej arall sydd yn agor yn hwyr fel hyn yn yr ardaloedd cyfagos.

**3.8** Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried cyfyngu oriau gwerthu alcohol yn ogystal a chynnwys y canlynol ar yr atodlen weithredol os yw'r aelodau yn penderfynu caniatáu y cais :-

- **Rhybuddion dim yfed a gyrru i'w gosod ar yr eiddo**
- **Hyfforddi staff ar weithredu cynllun Her 25**
- **Hyfforddiant ar wrthod gwerthiant i sawl sydd o dan ddylanwad alcohol**
- **Arwyddion ar yr eiddo yn nodi na fydd alcohol yn cael ei werthu i rai sydd o dan ddylanwad.**

## 4. Ymateb yr ymgeisydd i bryderon Iechyd Cyhoeddus

4.10 Mae'r ymgeisydd wedi ystyried pryderon Iechyd Cyhoeddus ac wedi datgan parodrwydd mewn egwyddor i leihau yr oriau gwerthu alcohol i 06:00 tan 22:00, o ddydd Llun i ddydd Sul**.** Oherwydd fod y cais yn cael ei gyfeirio am benderfyniad gan y Pwyllgor; mae yr ymgeisydd yn awyddus i aelodau 'r pwyllgor gael ystyried y cais a'r angen i leihau oriau mewn ymateb i'r pryderon a godwyd.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

**Argymhellir bod y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion ac yn cymeradwyo'r cais yn unol a'r cyfaddawd oriau gweithredu mae'r ymgeisydd wedi gytuno iddo mewn ymateb i sylwadau iechyd cyhoeddus Cymru, ac yn unol a gofynion y Deddf Drwyddedu 2003**